Cyd-gyngor Cymwysterau

AQA City & Guilds CCEA Edexcel OCR SQA CBAC

Cynhyrchwyd ar ran: AQA, CCEA, Edexcel, OCR a CBAC

Hysbysiad wedi'i ddiweddaru a chyngor i Ganolfannau

Rhyddhau Canlyniadau Cymwysterau Cyffredinol

Arholiadau Mehefin 2010

Cyfyngu ar Ryddhau Canlyniadau - canolfannau'n unig

Bydd copïau electronig o ganlyniadau ar gael i ganolfannau, naill ai trwy ddulliau diogel ar safleoedd allrwyd cyrff dyfarnu neu ar gludwyr EDI fel a ganlyn:

Dyddiad	Cymwysterau
0001 awr ar ddydd Mercher 18 Awst 2010	**TAG, FSMQ, DUE, Project Estynedig Unedau Prif Ddysgu Lefel 3**
0001 awr ar ddydd Llun 23 Awst 2010	**TGAU, TLM Unedau Prif Ddysgu Lefel 1 a 2 Projectau**

Dylai canolfannau dalu sylw i'r ffaith mai canlyniadau rhagarweiniol yw'r rhain ac **y gellir eu newid trwy'r gwasanaethau ymholiadau am ganlyniadau cyhoeddedig.**

Gofynnir i chi nodi nad yw'r cyrff dyfarnu i gyd yn cyhoeddi canlyniadau EDI i bob cymhwyster.

Cyhoeddir y canlyniadau hyn ond ar y ddealltwriaeth bod y ffeiliau canlyniadau a'u cynnwys yn aros yn **gyfangwbl gyfrinachol** i bennaeth y ganolfan, staff y swyddfa arholiadau a'r staff dysgu hynny sydd angen iddynt fod yn ymwybodol o'r wybodaeth ym marn pennaeth y ganolfan.

Ni ellir datgelu na thrafod y canlyniadau hyn a'r wybodaeth sy'n deillio ohonynt gyda'r canlynol:

- athrawon eraill
- ymgeiswyr na rhieni
- sefydliadau addysg ac Awdurdodau Lleol
- y wasg
- unrhyw unigolion eraill

Ni ddylid rhannu data canlyniadau'n ehangach tan y bydd yr ymgeiswyr wedi derbyn eu canlyniadau hwythau.

Rhyddhau canlyniadau i'r ymgeiswyr

Gellir rhyddhau canlyniadau i'r ymgeiswyr fel a ganlyn:

Dyddiad	Cymwysterau
0600 awr ar ddydd Iau 19 Awst 2010	**TAG, FSMQ, DUE, Project Estynedig Unedau Prif Ddysgu Lefel 3**
0600 awr ar ddydd Mawrth 24 Awst 2010	**TGAU, TLM Unedau Prif Ddysgu Lefel 1 a 2 Projectau**

Gellir ond anfon canlyniadau at ymgeiswyr i gyrraedd **ar ôl 0600 awr** ar ddyddiad priodol cyhoeddi'r canlyniadau. **Ni ddylai** ymgeiswyr dderbyn canlyniadau, trwy'r post neu fel arall, cyn yr amser hwn. Cedwir yr hawl gan y cyrff dyfarnu i dynnu'n ôl y consesiwn arbennig o ddarparu gwybodaeth gynnar am ganlyniadau yn electronig i unrhyw ganolfan a geir yn torri'r gofynion hyn.

Anfonir copïau printiedig o ganlyniadau cymwysterau Lefel 3 gan y cyrff dyfarnu i gyrraedd y canolfannau erbyn dydd Iau 19 Awst 2010.

Anfonir copïau printiedig o ganlyniadau cymwysterau Lefel 1 a Lefel 2 gan y cyrff dyfarnu i gyrraedd y canolfannau erbyn dydd Iau 26 Awst 2010.

Cyngor ar ryddhau canlyniadau TGAU i ymgeiswyr

Gan na fydd copïau caled y canlyniadau TGAU ar gael tan ddydd Iau 26 Awst 2010, bydd angen i'r canolfannau hynny sydd fel arfer yn cyhoeddi datganiadau canlyniadau rhagarweiniol i ymgeiswyr ystyried trefniadau eraill i gefnogi rhyddhau'r canlyniadau ar ddydd Mawrth 24 Awst 2010.

Amlinellir isod y tri opsiwn ddylai fod ar gael i bob canolfan. Mae'r rhain yn manteisio ar y ffaith y bydd ffeiliau canlyniadau electronig ar gael o 0001 awr ar ddydd Llun 23 Awst 2010.

1. Dylai canolfannau sy'n defnyddio pecyn MIS i brosesu eu data arholiadau ystyried coladu'r ffeiliau canlyniadau electronig gan bob corff dyfarnu er mwyn cynhyrchu un datganiad canlyniadau rhagarweiniol cyfun i bob ymgeisydd. Ar ddiwrnod y canlyniadau byddai hyn yn caniatáu i bob ymgeisydd dderbyn un daflen o bapur yn dangos eu canlyniadau TGAU i gyd.

2. Os nad yw pecyn MIS canolfan yn caniatáu cyfuno ffeiiau canlyniadau cyrff dyfarnu, yna gellid cynhyrchu datganiadau canlyniadau rhagarweiniol trwy ddefnyddio'r ffeil ganlyniadau unigol gan bob corff dyfarnu.

3. Gall y canolfannau hynny nad ydynt yn defnyddio pecyn MIS gynhyrchu datganiadau canlyniadau rhagarweiniol o hyd trwy argraffu'r rhain o safleoedd allrwyd diogel y cyrff dyfarnu. Os oes angen i chi wneud cais am fynediad i unrhyw un o'r safleoedd allrwyd, dylech gysylltu â'r corff dyfarnu perthnasol.

Dylai canolfannau sydd ag unrhyw bryderon ynglŷn â dilysrwydd datganiadau canlyniadau rhagarweiniol a gynhyrchwyd ganddynt ystyried eu hargraffu naill ai ar bapur pennawd yr ysgol neu'r coleg neu ar bapur plaen sy'n cael ei arwyddo a/neu ei stampio gan y ganolfan.

Ni ddylid dosbarthu datganiadau canlyniadau rhagarweiniol ymgeiswyr y bydd canolfannau'n eu cynhyrchu i ymgeiswyr cyn 0600 awr ar ddydd Mawrth 24 Awst 2010.

Cyngor i Golegau Chweched Dosbarth ac AB

Ym mis Awst 2010, gall colegau chweched dosbarth neu AB naill ai dderbyn datganiadau canlyniadau TGAU wedi'u cymeradwyo gan ganolfannau (h.y. canlyniadau wedi'u hargraffu ar bapur pennawd yr ysgol neu'r coleg neu ar bapur plaen wedi'i stampio gan y ganolfan) neu, ym mis Awst 2010 yn unig, ofyn i fyfyrwyr oedi cyn ymrestru tan y bydd datganiadau canlyniadau rhagarweiniol ymgeiswyr a gynhyrchir gan y cyrff dyfarnu ar gael. Os oes unrhyw amheuaeth, gall coleg chweched dosbarth neu goleg AB gysylltu â chanolfan yr ymgeisydd i gael gwybod canlyniadau'r ymgeisydd, neu, unwaith y bydd tystysgrifau wedi'u cyhoeddi, gellir gofyn i'r ymgeisydd amdanynt er mwyn gwirio'u canlyniadau.

Y dystysgrif yw cofnod terfynol cyflawniad ymgeisydd. Nid oes gwahaniaeth rhwng y data canlyniadau rhagarweiniol a gynhyrchir trwy safle allrwyd y corff dyfarnu neu drwy becyn MIS y ganolfan (a fydd ym mwyafrif yr achosion yn rhestru canlyniadau'r cyrff dyfarnu i gyd) a datganiadau canlyniadau rhagarweiniol ymgeiswyr y cyrff dyfarnu. Cofier, rhagarweiniol yw'r canlyniadau rhagarweiniol, a gellir eu newid.

CGC ©2010